

Addasu yn y Pandemig

Y mae Eluned Rees bod bwytai a sioau bach mewn un cornel o Sir Gaerfyrddin yno I wasanaethu



Yng nghanol pentref Llandybie mae bwyty poblogaidd Valans. Ym mis Mawrth, yn sydyn, collwyd eu cwsmeriaid i gyd. Roedd nifer fawr rheolaidd o bobl hŷn a phartion yn bwyta yno. Roedd pob bwrdd yn llawn erbyn Sul y Mamau. Beth i'w wneud wrth weld busnes llewyrchus yn diflannu mewn eiliad? Wel, fe newidion nhw eu ffordd o weithio, ac erbyn hyn maent yn darparu prydau bwyd ac yn eu dosbarthu i ardaloedd Rhydaman, Llandybie a Llandeilo. Rwyn eu mwynhau bob nos Wener!

Mae'r drefn newydd wedi bod yn llwyddiant, ac wrth wynebu dyfodol ansicr, gan nad oes lle i eistedd tu allan, a'r gofod tu fewn heb fod yn fawr iawn, mae'n rhaid derbyn mai dyma fydd y drefn. Ond, nid yw popeth yn dywyll. Dywed Remy, un o'r perchnogion, eu bod fel teulu wedi closio, cael mwy o amser i sgwrsio, chwarae gemau a mwynhau cwmni ei gilydd. Mae'r dosbarthu i dai pobl yn golygu cwrdd â phobl, a chael clonc cyflym.

Ar y llaw arall, mae'r siop bapurau newydd yn Rhydaman wedi ffynnu. Cafodd dros 120 o gwsmeriaid newydd, llawer yn dymuno cael y papurau wedi eu cludo i'w tai, a phawb am ddarllen ac yn cael amser i ddarllen y papurau newydd a chylchgronau. Ers hynny mae rhan o'r siop nawr yn dal silffoedd sy'n gwerthu pethau 'Warhammer', poblogaidd iawn gyda phobl ifanc. Arallgyfeirio!



Y mae Martin y Cigydd yng nghanol y dref wedi elwa yn y pandemig. Roedd siopau bwyd yn rhai angenrheidiol ac yn agored o'r dechrau. Cyflogodd ddau berson ychwanegol, ac mae'n dosbarthu cig o Gaerfyrddin i Gaerdydd, yn gyrru tua 500 milltir bob wythnos. Y tywydd yw un o ffactorau sy'n effeithio ar ei brysurdeb, ac mae agor mwy o siopau wedi lleihau ei elw rywfaint. Yn anffodus, wrth ymweld â chartrefi pobl, rhai allan yn y wlad, mae'n rhaid canu'r gloch, gadael y cig wrth y drws a chamu deg llath nôl. Does dim cyfle i gael sgwrs. Mae'r ddau

fab ifanc yn helpu bob dydd Mercher, ac yn cael cwmni eu tad a chyfarwyddo â'r fusnes a delio â chwsmeriaid.

Ond y siopau mwyaf poblogaidd ers llacio rhai o'r rheolau, yn ddi-os, yw'r barbwr a'r siop drin gwallt. Yn rhyfedd iawn doedd hi ddim yn gofyn 'Ydych chi'n mynd i rywle neis ar eich gwyliau eleni?'